

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	24ain Mawrth 2020
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	Harbwrfeistr Abermaw

1. Materion Mordwyo

- 1.1. Mae'r cymhorthion mordwyo sy'n marcio'r sianel ddynesu at harbwr Abermaw wedi aros yn eu lle dros y rhan fwyaf o fisoedd y gaeaf. Yr eithriad oedd Bwi port rhif 2, a ddaeth i'r lan ym Nhrwyn Fairbourne ac yn yr un lleoliad ac ar yr un amser daeth bwi newydd starboard arllwysfa Farirbourne, sy'n eiddo i Ddŵr Cymru, hefyd i'r lan. Cyflwynwyd Hysbysiad Lleol i Forwyr am y cymhorthion mordwyo yma a hyderir y bydd y bwiau yn ôl yn eu lle cyn gynted â phosib gyda chymorth Dŵr Cymru a'r contractwr angorfeydd.
- 1.2 Yn unol â'r gwaith cynnal a chadw arferol, rhagwelir y bydd y marciau mordwyo yn y sianel yn cael eu harchwilio yn ystod y misoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys y Nod Cardinal ar Graig y Perch a Chymhorthydd mordwyo morwal y Perch. Yn amodol i ymrwymadau gwaith y contractwr angorfeydd, bydd unrhyw offer sydd wedi gwisgo neu wedi'i ddifrodi yn cael ei drwsio neu ei newid. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn bwriadu adnewyddu'r marciau presennol yn yr aber a leolir ger pont y rheilffordd.
- 1.3 Mae'r sefyllfa bresennol y sianel fordwyo yn debyg i'r un a gyflwynwyd ym mis Medi diwethaf. Disgwylir i arolygon pellach o'r sianel y gellid ei mordwyo gael eu cynnal cyn y Pasg, a bydd unrhyw waith angenrheidiol i symud marciau'r sianel yn cael ei wneud wedi hynny. Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel yn ogystal â defnyddio cwch yr harbwr pan fo hynny'n ymarferol i gynnal arolygon, i geisio sicrhau bod y cymhorthion mordwyo yn y lle mwyaf addas.

2. Materion Gweithredol

- 2.1 Ar hyn o bryd mae staff sy'n gweithio ar ran Network Rail yn y broses o gynnal arolygon manwl o'r gwaith sydd ei angen ar Bont Reilffordd Abermaw. Bydd dau gwch diogelwch yn bresennol tra bo'r gwaith yma'n mynd rhagddo. Unwaith y cwblhelir hyn bydd gwell dealltwriaeth o raddfa ac ystod y gwaith ynghyd â'r peiriannau a'r llwybrau mynediad sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith o ail-wampio'r strwythur.
- 2.1.1 Deallir y bydd nifer o flychau gabion yn cael eu symud fel rhan o'r rhaglen waith ar y bont, a bydd y gwaith yn ymestyn dros gyfnod o dair blynedd. Er bydd y blychau gabion presennol yn cael eu dychwelyd maes o law, mae'r Gwasanaeth yn deall na fydd unrhyw flychau gabion ychwanegol yn cael eu gosod yn ystod y rhaglen waith.
- 2.2 Bydd staff yr harbwr yn parhau i gyd-gysylltu ac yn ceisio cymorth gan y rheolwyr a'r staff perthnasol yn y parciau carafanau lleol i geisio mynd i'r afael â'r defnydd gwrth gymdeithasol o gychod dŵr personol ar yr arfordir cyfagos ac yn nherfynau'r harbwr yn ystod yr haf. I gynorthwyo gyda hyn, yn ddiweddar cafodd cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr ei uwchraddio ar gyfer gwaith ar y môr ac yn amodol i ganllawiau a chyfyngiadau awdurdodedig, bydd nawr yn gallu mynd ymhellach na'r dyfroedd a ddiffinwyd gan yr

Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau fel 'Dyfroedd wedi eu Categori' ar yr aber.

3. Angorfeydd

- 3.1. Bydd staff yr harbwr yn parhau i rifo'r angorfeydd a leolir yn yr harbwr gan adnabod safle pob angofa.
Mae'r contractwr angorfeydd lleol yn ymwybodol o'r angen i ymgymryd â thasg o'r fath ac o'r angen i adrodd i'r harbwrfeistr os oes cwsmer yn cysylltu'n uniongyrchol i osod angorfa.

Atgoffir defnyddwyr yr harbwr o is-ddeddf 4 o Is-ddeddfau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw 1985 sy'n datgan:

"Ni fydd unrhyw berson yn yr harbwr yn gosod neu yn achosi i osod angorfeydd i unrhyw gwch heb ganiatâd ysgrifenedig yr harbwrfeistr ac yn unol â thelerau'r caniatâd hwnnw".

- 3.2 Mae'n anffodus bod y gwasanaeth wedi derbyn nifer o ffurflenni cadarnhau angorfa anghyflawn sydd wedi eu dychwelyd i'r cwsmeriaid unigol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn dymuno atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i gydymffurfio gyda Is-ddeddf rhif 5 o Is-ddeddfau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw 1985 sy'n datgan:

"Bydd perchennog offer angori yn archwilio ei offer angori yn flynyddol i sicrhau ei fod mewn cyflwr da, a bydd yn dangos Tystysgrif i'r Cyngor i gadarnhau hyn wrth ymgeisio i ad-leoli'r angorfa".

- 3.3 Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol bod angorfa segur ger y 'Clockhouse' i fyny'r afon o bont reilffordd Abermaw. Mae'r Harbwrfeistr yn gwybod pwy yw perchennog yr angorfa ac mae trefniadau wedi eu gwneud ar y cyd gyda'r perchennog a'r contractwr angorfeydd i adnewyddu neu symud yr angorfa.

4. Cynnal a chadw

- 4.1 Yn ystod y stormydd gaeafol diweddar difrodwyd rheiliau'r harbwr, sy'n gwarchod ochr y cei, a'r ysgolion harbwr cysylltiedig ar wal y cei gan gychod oedd wedi angori ar ochr y cei. Bu'r Harbwrfeistr mewn cysylltiad gyda pherchnogion y cychod dan sylw gyda'r bwriad o ad-ennill costau a achoswyd fel rhan o'r broses atgyweirio sydd eto i'w chwblhau.
- 4.2 Mae rhwystr yr harbwr, sy'n darparu mynediad i flaen yr harbwr ac i ardal y pypiau disel, hefyd wedi ei ddifrodi ac mae angen i staff yr harbwr ymgymryd â gwaith cynnal a chadw. Digwyddodd hyn pan fagiodd cerbyd i mewn i'r rhwystr. Adroddwyd am y mater i Heddlu Gogledd Cymru ar y pryd, ond hyd yma nid yw eu hymholiadau wedi gallu adnabod y cerbyd dan sylw.
- 4.3 Mae'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd (Amddiffyn yr Arfordir) am y gwaith atgyweirio sydd ei angen i risiau'r fferi ar flaen yr harbwr. Mae aelod o'r adran honno wedi archwilio'r grisiau ac mae'r Gwasanaeth yn

aros am ragor o wybodaeth o ran pryd bydd y gwaith atgyweirio yn digwydd. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro hyd nes fo'r gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud.

- 4.4 Roedd stormydd y gaeaf, yn arbennig y rhai a enwyd yn Ciara a Dennis, yn gyfrifol am y difrod i'r rheiliau diogelwch a'r briffordd tua phen gogleddol y promenâd. Dechreuodd staff yr harbwr ar waith atgyweirio i'r rheiliau yn yr ardal yma ond yn dilyn difrod difrifol ychwanegol ar y 12fed o Fawrth, bydd y gwaith yn cael ei ohirio hyd nes y cynhelir archwiliad llawn gan beirianwyr. Mae staff yr harbwr yn parhau i fonitro'r llithrfa a'r ardal o amgylch pen gogleddol y promenâd sydd yn agored iawn i dyfiant algae, fel bo'r gwaith atgyweirio yn digwydd.
- 4.5 Bydd yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r rhaglen gwaith cynnal a chadw a wnaed yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

5. Materion Eraill

- 5.1 **Carthu'r Harbwr** Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw, cytunwyd i drafod y posibilrwydd o garthu'r harbwr a nodwyd fod cyfle i ymgeisio am arian o'r Gronfa Ewropeaidd Morwrol a Physgodfeydd (Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (FLAG) Bae Ceredigion) i gynnal gwerthusiad o ran lefelau'r mwd yn y brif sianel fordwy.
- 5.1.1 Mewn cyfarfod dilynol o bartion oedd â diddordeb, cytunwyd i baratoi 'mynegiant o ddiddordeb' drafft a'i ddsbarthu i gael sylwadau mewn ymdrech i sicrhau arian o'r fath. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi ei wneud. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, bwriedir cyflwyno'r gwaith papur perthnasol cyn 11eg o Fawrth, cyn cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) ar 18fed o Fawrth.
- 5.2 **Lloc y Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn helpu defnyddwyr y lloc i gael gwared ar ddeunyddiau gwastraff o'r safle. Unwaith bydd y gwaith wedi ei orffen bwriad y Gwasanaeth yw adolygu a chryfhau graddau lleiniau harbwr unigol. O safbwynt hyn, hoffai'r Gwasanaeth atgoffa defnyddwyr y lloc o'r angen i gadw lleiniau unigol yn lân ac yn daclus, gan gydymffurfio gyda deddfwriaeth lechyd a Diogelwch perthnasol a thelerau'r cytundeb a wnaed gyda'r Gwasanaeth.
- 5.3 **Parcio yn yr Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio tuag at gael manau parcio dynodedig ar Ffordd y Lloc i helpu Gweithwyr Masnachol ar y dŵr i ddal ati gyda'u gweithgareddau yn yr harbwr, gan gadw blaen yr harbwr yn rhydd o gerbydau masnachol. Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r Gwasanaeth yn hysbysu o ran adfer cost a gwaith cynnal a chadw, bydd tâl ar raddfa sydd heb ei benderfynu eto yn cael ei ofyn gan weithredwyr masnachol sy'n defnyddio'r cyfleuster parcio.
- 5.3.1 Hoffai Awdurdod yr Harbwr atgoffa'r defnyddwyr gwasanaeth am yr angen i ddefnyddio'r rhwystr ger mynedfa'r ffordd sy'n arwain at Lloc y Pysgotwyr yn effeithiol gan atal unrhyw barcio ar hap gan ddefnyddwyr di-awdurdod.
- 5.3.2 Gwnaethpwyd cais am gymorth gan swyddogion gorfodaeth ac fe ddalier ati i wneud hyn yn ôl y gofyn, er mwyn galluogi i ddefnyddwyr yr harbwr gael mynediad rhydd a di-rwystr i'r lithrfa parthed y marciau ffordd ger adeilad 'SS Dora' ac at lithrfa'r harbwr.

5.4 **Tywod. Morwrol** Gosododd gweithwyr y gwasanaeth ffens estyll castan ar fannau strategol o'r traeth dros y gaeaf i leihau tywod ac i annog datblygiad twyni yn yr ardal yma. Bwriad y ffens yw atal gormodedd o dywod rhag cael ei chwythu a mynd ar y promenâd, y ffordd, maes parcio a blaen yr harbwr. Mae ffens debyg hefyd wedi ei chodi i atal tywod rhag mynd dros y fynedfa i Ynys y Brawd. Dengys yr arwyddion cynnar bod y prosiect yma wedi bod yn werth chweil, ond bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro.

5.5 **Cadw cychod dros y Gaeaf ar y Maes Parcio.** Ni wnaeth unrhyw berchnogion cychod fanteisio ar y dewis i gadw cychod dros y gaeaf ar y maes parcio ger y Ganolfan Hamdden dros y gaeaf yma. Y llynedd, dim ond dau gwch a ddefnyddiodd y cyfleuster, ac mae'r gwasanaeth bellach yn adolygu hyfywdra'r opsiwn.

6. Digwyddiadau

6.1 Hyd yma, derbyniwyd ceisiadau i gynnal y digwyddiadau isod yn Harbwr Abermaw yn 2020:-

- Ras y Tri Chopa
- Digwyddiad Elusenol Beiciau Dŵr Porthmadog - Abermaw - Aberdyfi (Black Rock Blast)
- Gŵyl Farcud
- Gŵyl Fwyd Abermaw
- Digwyddiad Motorcross
- Gŵyl Chwaraeon Padlo
- Cymdeithas Nofio 'Digwyddiad Hwrlibwri'

6.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa'r aelodau ei bod yn hanfodol fod Awdurdod yr Harbwr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig yn yr Harbwr a bod y trefnwyr yn gofyn am ganiatâd, cyn gynted ag y bo modd.